**Synthesis tystiolaeth y Cwricwlwm i Gymru i lywio polisi**

## Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith am dâl ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru mewn maes polisi proffil uchel. Prif sylw'r prosiect fydd cyfuno tystiolaeth sy'n ymwneud â diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i nodi a chyfuno tystiolaeth berthnasol, er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei gwaith gwerthuso ac wrth ddatblygu polisïau. Bydd yr ymgeisydd yn cael y cyfle i ddefnyddio sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar ei sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi ei wybodaeth am ymchwil y tu hwnt i faes academaidd.

## Y sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

## Yr interniaeth

Bydd yr intern yn rhan o dîm bach sy'n cynnal gwerthusiad o'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio'n agos â swyddogion polisi ac ymchwilwyr, a bydd cyfle iddynt roi eu sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar eu sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi eu gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn gynnwys mentora, cysgodi, cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig goleuni pellach ar ei brosiect PhD a all gyfrannu at lwyddiant y thesis, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil
- Sgiliau a gwybodaeth trosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau

## Y prosiect

**Synthesis tystiolaeth y Cwricwlwm i Gymru i lywio polisi**

### *Cefndir*

Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy’n codi safonau addysgol ac sy’n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal gwerthusiad trylwyr a thryloyw o'n diwygiadau i'r cwricwlwm. Mae nifer o astudiaethau ar y gweill sy'n cael eu cynllunio i ateb cwestiynau ymchwil a gwerthuso penodol am sut mae'r diwygiadau'n gweithio, ac i archwilio i ba raddau y maent yn cael yr effaith a ddymunir ar bob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir neu eu hanghenion.

Fodd bynnag, mae diwygio'r cwricwlwm yn newid pellgyrhaeddol – un a fydd yn newid profiadau dysgwyr, athrawon ac ysgolion yn sylfaenol. Rydym yn awyddus i sicrhau bod ffynonellau data / cynlluniau gwerthuso eraill yn cyd-fynd yn briodol â gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gydlynol o ddiwygiadau addysg ehangach. Bydd y rhain yn arbennig o bwysig er mwyn darparu gwybodaeth am gynnydd yn y tymor byr cyn i'r astudiaethau mwy, sy'n benodol i'r Cwricwlwm i Gymru, gynhyrchu canfyddiadau.

Mae'r rhain yn cynnwys setiau data gweinyddol, data cenedlaethol ar gyfranogiad a chyrhaeddiad, data arolygon addysg, tystiolaeth arolygu Estyn ac astudiaethau ymchwil a gwerthuso ad hoc. Rheolir y ffynonellau data hyn gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid addysg eraill. Ar gyfer rhai ffynonellau data, mae data, adroddiadau neu fwletinau ystadegol rheolaidd yn cael eu cyhoeddi – er nad yw rhai o'r ffynonellau'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd.

Yn ystod yr haf bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu adroddiad blynyddol y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd a'r cyflawniadau hyd dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf o fis Medi ymlaen. Rydym yn dymuno i'r adroddiad hwnnw fod wedi'i seilio ar gymaint â phosibl o ehangder y dystiolaeth sydd ar gael. Nod y prosiect hwn felly fydd cynhyrchu (i) cynllun synthesis yn y lle cyntaf, gan nodi ffynonellau tystiolaeth perthnasol a manylion yr amserlen pan fydd y ffynonellau ar gael, ar gyfer cyfnod yr interniaeth a gan edrych ymlaen ymhellach i'r dyfodol, a (ii) synthesis sy'n crynhoi'r canfyddiadau o'r dystiolaeth sydd ar gael i lywio meddylfryd swyddogion polisi cyn drafftio adroddiad.

*Canlyniadau'r prosiect a ragwelir:*

- Cynllun synthesis sy'n nodi ffynonellau data perthnasol a manylion yr amserlen pan fydd y ffynonellau ar gael – a hynny ar gyfer cyfnod yr interniaeth a gan edrych ymlaen ymhellach
- Canlyniad cyfuno'r dystiolaeth sydd ar gael sy'n berthnasol i weithredu'r diwygiadau a'r canlyniadau cynnar mewn perthynas â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu
- Datblygu a mireinio adroddiad
- Cyflwyniad o'r canfyddiadau i dimau polisi perthnasol.

## Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 6 mis, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd y sefydliad cartref yn rhewi prosiect PhD y myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn cael ei dalu'r hyn sy'n cyfateb i'w dâl (stipend) yn ystod ei interniaeth. Yn ogystal â gwyliau blynyddol, gellir trefnu amser ar gyfer ymrwymiadau PhD drwy drafod gyda'r rheolwyr llinell, e.e. cyfarfodydd grwpiau ymchwil a chyflwyniadau cynhadledd. Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 6 mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

**Manyleb myfyriwr**

Rhaid bod gan y myfyriwr:

- Y gallu i drafod gyda'r tîm polisi i ddeall eu hanghenion ac i gynnal ymchwil ddesg

- Sgiliau cryf mewn perthynas ag adolygu llenyddiaeth ac arfarnu tystiolaeth, gan gynnwys y gallu i gyfuno ystod eang o dystiolaeth
- Y gallu i gynhyrchu dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda, gan gyflwyno tystiolaeth gymhleth mewn fformat hygyrch.

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Tymor yr hydref 2024 (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio a llety rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd fel arfer. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau YGGCC. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Carole Baker yn YGGCC ar: enquiries@wgsss.ac.uk

## Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r post neu'r broses ymgeisio at Anna Allen Jones anna.allenjones001@llyw.cymru